# Pegi Lewis

## Arwres y Degwm

**Awn bob ddau, nid gau gennad,**
**I eglwys Duw, gloyw ei stad,**
**A thalwn [pam na thelir?]**
**Offrwm a degwm o dir.**
**Sion Cent [1367? – 1430?]**

- 1836 – Deddf Cyfnewid y Degwm.

Trefnodd y Ddeddf i gyfnewid mewn cynnyrch i fod yn daliad ariannol, wedi ei benderfynu yn ôl rhent y tir a chyfartaledd prisiau ŷd dros y saith mlynedd flaenorol.

1839 – 44 – Terfysgoedd Beca.

Cynnydd yn y galwadau i ddatgysylltu'r eglwys. 1844 sefydlwyd 'The British Anti-State Church Association'.

- 1869 pasiwyd y Ddeddf i Ddatgysylltu'r Eglwys yn Iwerddon.
- Etholiad 1868 – landlordiaid Eglwysig a phersoniaid yn troi'r sgriw ar ôl Lecsiwn Fawr '68.
- Brwydr 'Land League' y Gwyddelod.
- Ehangu'r etholfraint yn 1885/86
- Rôl allweddol Thomas Gee a 'Baner ac Amserau Cymru'.

Gyda thwf Anghydffurfiaeth yn ystod y 19eg ganrif datblygodd y degwm yn dreth amhoblogaidd iawn. Bu'r dirwasgiad amaethyddol yn yr 1880au yn ffactor i ddwysáu atgasedd y werin tuag at daliadau'r degwm. Erbyn 1886 roedd grwpiau protest yn erbyn y degwm yn cael eu sefydlu, megis 'The Farmer's Tithe Defence League' gyda'r bwriad o bwyso ar yr Eglwys am leihad yn y taliadau. Ystyriwyd y degwm yn bwysau ariannol diangen ar y bobl gyffredin am nad oedd ganddynt unrhyw ymlyniad at Eglwys Loegr, ac yn hinsawdd dirwasgiad diwedd y 19eg ganrif cyrhaeddodd y tensiynau uchafbwynt yn 'Rhyfel y Degwm'. Nid oedd modd i'r llywodraeth anwybyddu'r trafferthion a'r drwgdeimlad yn erbyn y Degwm yn y gymuned amaethyddol yng Nghymru, ac yn 1891 cyflwynwyd Deddf Trosglwyddo Cyfrifoldeb am y Degwm i'r tirfeddiannwr. O hyn ymlaen byddai'r degwm yn rhan o daliadau rhent y tenantiaid. Canlyniad hynny i lawer o denantiaid oedd cynnydd yn y rhent.

# Thomas Gee a 'Baner ac Amserau Cymru.'






Baner ac Amserau Cymru.

THE "BANNER AND TIMES OF WALES"

THE NATIONAL NEWSPAPER, AND FARMERS' JOURNAL.



CANEUON Y DEGWM.

CYFANSODDIADAU BUDDUGOL

AR Y MESURAU

'Difyrwch Gwyr Harlech.'
'Hen Wlad fy Nhadau.'
'Ar hyd y Nos.'
'Llwyn Onn.'
'Gwnewch bopeth yn Gymraeg.'
'Mae Robin yn Swil.'

O "BANER AC AMSERAU CYMRU."

DINBYCH:
CYHOEDDEDIG GAN T. GEE A'I FAB.
Pris 1c. 1887.


DD/DM/673/3

# Rhyfel y Degwm – ble a phryd?

Brynhoffnant.



# Yr Herald Gymraeg 16/11/1886



disgwylir ei atebiad.

TREWYDDEL, SIR BENFRO.


Cynnaliwyd cyfarfod o ddegwm-dalwyr y plwyf yn yr Ysgoldy Brytanaidd, Trewyddel, ddydd Llun diweddaf, i ystyried atebiad perchenogion y degwm i'w deiseb am 15 y cant o ostyngiad. Penderfynwyd yn unfrydol fod atebiad y degwm-berchenog lleyg yn anffafriol, gan ei fod yn gomedd ein cais; a phenderfynwyd, hefyd, ein bod i anfon atebiad, yn deisyf ar y boneddwr i ail ystyried ei benderfyniad, a'i hysbysu ein bod yn sefyll at ein cais blaenorol.

LLANYMDDYFRI.

Cynnaliodd degwm-dalwyr plwyf Llandingat gy-

Tyddyn Whitlands






**Map Degwm 1888 – 1913**

Parc y Delyn

Parc y bariwns

Parc Uwchlaw’r Ffordd

Parc dan Whitlands

Roedd un o arwyr 'Rhyfel y Degwm' yn byw yn Whitlands, Trewyddel, sef Pegi Lewis. Roedd gan ei thad, Dafydd Lewis y Crudd, [marw 1869] a oedd yn Annibynnwr,  farn flaengar yn wleidyddol ac yn ôl yr hanes roedd Pegi Lewis yr un mor effro a'i thad. Mae'n debyg fod Pegi, pan ddaeth "Y Swyddog" i gasglu y fuwch, fel rhan o ddyled y degwm, wedi penderfynu gadael y fuwch yn rhydd gan ddatgan gallai'r "Swyddog" ei dal.
Er mawr ddifyrrwch i Pegi methodd "Y Swyddog" a dal y fuwch ac fe fu'n rhaid iddo fynd o Whitlands yn waglaw! Yn dilyn y digwyddiad fe gynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu balad am weithred ddewr Pegi gyda gwobr o £5. Mae'r ffaith fod yna 67 o feirdd wedi cystadlu yn dangos  pwysigrwydd safiad Pegi. Ysgrifennwyd y falad fuddugol gan Watcyn Wyn.



ac y cânt wenau'r nefoedd holl ddyddiau eu hoes.

## PUM' PUNT O WOBR.

Cynygir pum' punt o wobr am

## GAN BOBLOGAIDD

*Testyn:*—Pegi Lewis a'r Degwm.
*Beirniaid:*—Hwfa Mon a Dyfed.

HEN wraig weddw dlawd yw Pegi Lewis, yr hon, wedi claddu ei hunig fab, nad oedd ganddi ddim moddion cynaliaeth ond dwy fuwch. Un diwrnod, pan nad oedd ganddi damaid o fara yn y tŷ, daeth rhybudd iddi dalu'r degwm. Gan nad oedd ganddi fodd i dalu, daeth y beili yno yn mis Chwefror. gan atafaelu ar un o'r ddwy fuwch yn y beudy tra yr oedd Pegi allan yn casglu eithin. Yn mis Mai. yn absenoldeb Pegi drachefn, daeth y beili yno gyda nifer o heddgeidwaid. Gan nad oedd y fuwch yn y beudy, lle y cafodd hi yn Chwefror, er ei bod yn pori ar y cae gerllaw'r tŷ, cyhuddwyd Pegi o fod wedi "tori ffald," a gosodwyd hi yn y Cwrt, gan hawlio iawn arni am "dori ffald." Trwy gymorth Trysorfa Amddiffynol yr amaethwyr, godwyd gan Gyngrair Rhyddfrydol Deheudir Cymru, cafwyd Cyfreithwyr galluog i amddiffyn yr achos. Y canlyniad fu i'r erlynwyr dynu yn ol cyn i'r achos ddyfod i brawf, ac felly bu Pegi yn fuddugoliaethus.


AMODAU Y GYSTADLEUAETH.

Y Celt 20 Rhagfyr 1889

IN THE WAKE OF IRELAND.



# Cerdd i Pegi Lewis



185

CAN NEWYDD

Yn rhoddi hanes Arwres y Degwm,—

**PEGI LEWIS,**


Ar modd y curodd hi yr awdurdodau, a chadw ei buwch.

*Now then! rhaid chi Pegi talu Degwm i Ffirad, ne buwch chi cal gwerthu, dyna orders fi.*

Ton: 'Gwnewch bob-peth yn Gymraeg"

M[illegible] wragedd,
Yn anwyl yn ein plith;
A'u henwau 'n perarogli,—
Nis gallant farw byth;
Er hyn, un " Pegi Lewis"
Sydd genym,—Cymru wyr,
Ac ar bwys Pegi 'r benaf un
I'r cysgod gilia'n llwyr

CYDGAN :—
Rhowch glod i Pegi, clywch,
Ei henw elo'n uwch,
[illegible]
Wrth ymladd am ei



2


Pan welodd Pegi 'r swyddog,
Wrth ddrws ei bwthyn llwyd;
A deall hynt ei neges,
Hi gododd yn ei nwyd—
A tharo 'r llawr a'i chlocsen
Hi wnaeth nes codai'r lluwch,
"I ffwrdd! i ffwrdd! a thi y rhôg
Fy mywyd dros fy muwch."

CYDGAN—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Ond, Ow! fe glymwyd *Beauty*,
O fewn y beudy brwyn;
Ac yno brefai glodydd,
Yr Eglwys fawr [illegible],
A chyd-rhwng llefau Pegi,
A brefau'r fuwch mor rhydd,
Cynhyrfwyd byddin 'Cymru Fydd'
O Gybi i Gaerdydd.

CYDGAN—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Y swyddog roddodd rybudd—
Fod gwerthu'r fuwch i fod;
Er cynal achos crefydd [illegible]
[illegible] goreu 'rio'd;



2


Pan welodd Pegi 'r swyddog,
Wrth ddrws ei bwthyn llwyd;
A deall hynt ei neges,
Hi gododd yn ei nwyd—
A tharo 'r llawr a'i chlocsen
Hi wnaeth nes codai'r lluwch,
"I ffwrdd! i ffwrdd! a thi y rhôg
Fy mywyd dros fy muwch."

CYDGAN—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Ond, Ow! fe glymwyd *Beauty*,
O fewn y beudy brwyn;
Ac yno brefai glodydd,
Yr Eglwys fawr [illegible],
A chyd-rhwng llefau Pegi,
A brefau'r fuwch mor rhydd,
Cynhyrfwyd byddin 'Cymru Fydd'
O Gybi i Gaerdydd.

CYDGAN—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Y swyddog roddodd rybudd—
Fod gwerthu'r fuwch i fod;
Er cynal achos crefydd [illegible]
[illegible] goreu 'rio'd;



2

Pan welodd Pegi 'r swyddog,
Wrth ddrws ei bwthyn llwyd;
A deall hynt ei neges,
Hi gododd yn ei nwyd—
A tharo 'r llawr a'i chlocsen
Hi wnaeth nes codai'r llwch,
"I ffwrdd! i ffwrdd! a thi y rhôg
Fy mywyd dros fy muwch."

Cydgan—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Ond, Ow! fe glymwyd *Beauty*,
O fewn y beudy brwyn;
Ac yno brefai glodydd,
Yr Eglwys fawr ei [illegible],
A chyd-rhwng llefau Pegi,
A brefau'r fuwch mor rhydd,
Cynhyrfwyd byddin 'Cymru Fydd'
O Gybi i Gaerdydd.

Cydgan—
Rhowch glod i Pegi, clywch, &c.

Y swyddog roddodd rybudd—
Fod gwerthu'r fuwch i fod;
Er cynal achos crefydd [illegible]
Waun goreu 'rio'd;



Ni chlywais i y bu erioed
Gan Moses féili degwm;
Ond wele plant y deyrnas roed
Yn ngharchar trais a gorthrwm.
Mae myn'd a bara dyn i ffwrdd
Yn wir lofruddiaeth echrys;
Y glân olynwyr (?) lyfent ffwrdd
Y druan Pegi Lewis.

Yn mh'le mae'r fuwch, feiliaid gwael?
Mae'r person yn anynad;
Paham na fynwch chwi ei chael?
Nid yw ond gweddw amddifad.
A gawn ni alw'r diafliaid fu
Am oesau yn poeni'r Eglwys,
I'th gynorthwyo, offeiriaid du,
I lorio Pegi Lewis?

Arswydwch, holl ormeswyr byd,
Mae dwrn y Nef yn nghauad;
Diwygiwch bellach, mae'n llawn bryd,
Y daran ruai'r cread;
O chwys, a gwaed, a dagrau'r tlawd
Y cododd trydan echrys
I 'sgubo ymaith ar ei rawd
Holl dreiswyr Pegi Lewis.

Newport. IOAN DDERWEN O FON.

Cardiff Times Mawrth 1890



3.103

# CAN Y CWMP'NI.

Ton—"Mochyn Du."

(Neu gellir ei chanu ar "Brefiad Lloiau Pegi Lewis).

Cydneswch pob un sy'n mofyn
Hanes Steddfod fowr Llanellyn,
A chwech wybod taw un "Cwmp'ni"
Gant y clod a'r arian ynti!

BYR.—Os bu erio'd ganu dod
Os bu erio'd ganu clod,
Parch (?) y Cwmp'ni ga'i fynegi
Tra bo hanes Cymru'n bod.

"Cwmp'ni" yw na fyn aelode
Ond cyfeillion a pherthnase,
A'i golofne yn ymgynal
Ar godernid Sebon Meddal!

"Tri o Brif Feirdd" sy'n bodoli
Yn y byd (hwy sy'n cyhoeddi)!
Tri enillsant bob dyrchafiad
Yn eu hoes trwy "*clique* yr Enwad."

Gyrwyd Cynyrch i "Sig-hago,"
Ond Coron wael, rhag iddynt grïo
Gaed o'r Wobr, a rhyw *gyfran*
Am "na haeddent yr holl arian"!!

Bryd y llwyddant wrth gystadlu
Os na fydd cyfaill yn beirniadu?
Neu rhyw *Merchant* mewn llenyddiaeth
Helpio'i "Genders" a barddoniaeth?

Pum' punt farnodd (?) "Cyfaill" duwiol
Am y brefiad gwrthddegymol
I "Pegi Lewis a'i Myswynog"
Pwy ond "Cyfaill" ro'i bump ceiniog?

Ni wnaeth Homer, Pindar, Horas
Gronwy Ddu, na Dafydd Benfras,
Ddim fel *Brefiad gorfoleddus*
Mab Myswynog Pegi Lewis!!!

Fe gyfieithwyd hon i'r Sasneg—
Ni waeth hyny nac ychwaneg:
A bydd "yn gam" os na ddyg bortwr
O aur, "o bwrs y wlad" i'w hawdwr.

Rhaid yw "*shino*" yn Llanellyn,
Dros dori gwddf y Gwin ag ellyn;
*Rhaid* cael pres i "bwrs y Cwmp'ni"—
Nid am eu *syched* na'u *tylodi* (?)

Mae yn bwysig iawn eleni
Ffitio cap i Ben y Cwmp'ni:
Daeth atynt lais o ——, "Ymunwch!
*Write a 'Noodl' on* 'Dedwyddwch'"

"*Noodl*" sWat a wnaed ers dyddie,
A brynai'i hawdwr hi yn ore;

Gan law mElfel fe'i copiwyd—
Fe'i gorphenwyd ac fe'i trwsiwyd!

sWat fu'n cosi' Ben gan ddisgwyl
Arno Goron "Disgybl Anwyl,"
Ond am hon mae cryn bryderu,
Am nad oes "Cender" yn beirniadu.

Erbyn heddyw*, aflwydd eto!
Nid yw'r "*Noodl*" wedi llwyddo!!
"Ceulan" onest dorodd danyn'—
Aeth y "Berw yn eu herbyn!!!

Am y bardd a wnaeth eu curo,
Mae yn gwilydd gwymed iddo!
Cwmp'ni o S'leigion yn gwneyd "*Noodl*"
Yntau hun yn curo'r cwbl!!

Doeth i'r Cwmp'ni wneyd "Libretto,"
A rhanu'r yspail, dæd a ddelo:
Beth o bwys, os ceir yr arian,
Fod y wlad *yn gweld[illegible]* y cyfan?

Rhaid cyflawni ambell orchest (?)—
Nid oes cwilydd ar y gonest:
Pwy *harm* eiste mewn "Pwyllgore,"
A chael wedyn ran o'r gwobre.

Os yw,r Cwmp'ni "wedi gwylltu,"
Oes goddefiad iddynt "regi"?
Am "dyngu," "gwylltu," a "rhegi" a' hwylus,
Y mola'r "*Laureate*" Pegi Lewis!!!

Wyla'r Cwmp'ni am flynyddoedd—
"O! na bae ei Ben yn ddyfroedd"!
Bee yn ddyfroedd! beth yw hyny
I olchi ymaith warth y Cwmp'ni?

Ffei o'r "Cwmpni"— gwae, Ragrithwyr,—
Ffactri twyll i wneyd ———!
Coleg—Cadair—Eglwys—yna,
Gras neu beidio, gwnaiff yn eitha'!!

Pa wahaniaeth os daw'r bleiddiaid
I ysglyfio'r wyn a'r defaid,
Os ca'r Cwmp'ni fyn'd yn enwog,
A gwobre twyll i'w code tyllog!

Bellach rhaid yw rhwbio dwylo,
A chosi eu gilydd, a: Llandudno:
Maent yn barod wedi eiste
I drefnu'r gwaith, a rhanu'r gwobre!

Gwelir yno'r Cwmp'ni enwog,
Gydag ambell hen fyswynog,
"Yn dychlamu ar fynyddoedd!
Yn pori gwellt y mil blynyddoedd"!

X205 210316



Can y cwmp'niTon - "Mochyn Du" (neu gellir ei chanu ar "Brefiad Lloiau Pegi Lewis)

Alternate Title

Mochyn Du

Date

[18--?]

Physical description

1 sheet (4p).

Permalink

http://hdl.handle.net/10107/1105801

License

Cardiff University has created this digital version of the resource and hold the rights to the digital images. It is published by Cardiff… MORE

Repository

This content is hosted for Cardiff University Library by The National Library of Wales.

South Wales Daily News 14-02-1890

&c., W. HOWELL.

Cymmer, Feb. 12th, 1890.

---

## CAN PEGI LEWIS.

TO THE EDITOR.

SIR,—We are issuing the song of Pegi Lewis at 1s per 100 copies, and we have already despatched several thousand copies to all parts of the principality, and are still besieged with applications for copies of the song.—I am, &c.,

RICH. N. HALL.

Liberal Federation Offices,
53, Queen-street, Cardiff.

# Y Gwrthdaro'n lledu:

**The Cardigan Observer,**

SATURDAY, MARCH 9, 1889.

## THE COMING TITHE SALES.

On Tuesday last, at the invitation of the farmers of the locality, Mr. William Davies, M.P. for Pembrokeshire, visited Crymych, for the purpose of consulting with them as to the action to be taken at the forthcoming tithe sales at Eglwyswrw, Whitechurch, and Penrith. Mr. Davies invited a candid expression of their sentiments, and after a conferenae of some hours, he was satisfied that not only had there been no breach of the peace committed or threatened at the previous distraints, but that, although a general and spirited protest will be made at the sales, there was no intention of obstructing the officials in the performance of their disagreeable duties. Mr. Davies undertook to make representations in the proper quarter to prevent a huge force of police being sent, but to secure a few constables to keep the tithe officials in order.

There was a large attendance, and Mr. Davies was enthusiastically received.

**Baner ac Amserau Cymru**

24th November 1886 ⏮ Previous issue ◀ Previous page

## MYNACHLOGDDU.

Y MAE y plwyf hwn wedi buddugoliaethu yn rhyfel mawr y degwm. Dyma y fuddugoliaeth gyntaf yn sir Benfro, ac yn Neheudir Cymru. Bu yma danio caled ar hen gastell y degwm am rai wythnosau. Y mae y gareg fechan a dorwyd o fynydd Llanarmon, nid â llaw, wedi treiglo i sir Benfro, ac wedi dryllio am byth y degwm yn Mynachlogddu, a threigla yn ei nerth drwy y plwyfydd cymmydogaethol. Y mae Llanfyrnach yn fflam, a theimla Llanglydwen ei dylanwad, a threiglo a wnelo nes cyrhaedd hen gastell esgob Tŷ Ddewi. Y mae nerth yn y gareg hon—careg y bobl ydyw. Nos Iau diweddaf, yn ysgoldy y lle, yr ennillwyd y fuddugoliaeth hon. Cymmerwyd y gadair gan Mr. Sambrook. Darllenodd lythyr oddiwrth y rheithior yn ei hysbysu ei fod yn dychwelyd deg y cant yn ol o'r degwm. Cynnygiwyd gan Mr. Thomas Griffiths fod cynnygiad y rheithior yn cael ei dderbyn. Cymmerodd dadl frwd le ar y cynnygiad, rhai dros ei dderbyn, ac eraill dros sefyll at y penderfyniad blaenorol. Ymranwyd, pryd y cafwyd dros y cynnygiad fwyafrif o bedwar, a chyttunwyd ei dderbyn. Mr. Griffiths yw y cyntaf o'r llu parsoniaid yn sir Benfro sydd wedi gwneyd hyn. Ffyddloniaid yr achos, ymgryfhewch, mae y wawr wedi tori!
—*Cilanwr.*

LLANFIHANGEL-AR-ARTH.

Adroddiad 'Seren Cymru', Awst 1891.

Yn ystod Awst 1891 roedd 'y beili bydenwog, ar ei daith pererindodaidd o gasglu degwm', chwedl colofnydd Baner ac Amserau Cymru yn ymweld â ffermydd a thyddynod y fro unwaith yn rhagor. Yn gwmni iddo roedd yr Arolygydd Phillips o Abergwaun a phedwar plismon. Ar y 15ed o Awst talodd ymweliad o'r newydd â Mr Johnathon George, Ffynnoncoronau oedd yn ôl y sôn yn dipyn o gymeriad. Gwyddai fod y beili ar ei ffordd a symudodd ei anifeiliaid o'i afael ond distreiniwyd ar das o wair. Roedd tyrfa lluosog wedi ymgasglu i herio'r awdurdodau. Mr Needle, oedd y gohebydd ddanfonwyd ar ran y 'Western Mail' i gofnodi'r hanes ac wedi iddo gyrraedd clos Ffynnoncoronau adroddwyd gan y Faner,

'Cwsmer o duedd dipyn yn ddoniol i newid syniadau ag ef yw Mr George, fe ymddengys, canys efe a roddodd fod i'r ddihareb sydd yn awr yn neillduol o boblogaidd yn y wlad; sef 'Rhaid i nodwydd ddilyn y teiliwr', drwy gyplu y gohebydd, Mr Needle ag enw crefft foreuol y beili; sef oedd hono teilwriaeth, cyn iddo ddyfod yn ymladdwr dros drais yr Eglwys estronol

Mis yn gynharach roedd Robert Lewis wedi dwyn achos o ymosod yn gorfforol yn erbyn Mr John Rees [Pant yr Haidd, Boncath]. Yn ôl ei dystiolaeth o flaen ynadon heddwch y llys yng Nghapel Newydd adroddodd yr hanes sut i bu i John Rees ei fygwth. Wedi cyrraedd y feidr yn arwain i'r ffarm gwelodd fod yr iet wedi ei gloi'n ddiogel a bu rhaid iddo ddringo drosti. Wedi cyrraedd y clos roedd John Rees yn ei ddisgwyl ac oddeutu ef roedd ei gefnogwyr yn canu Cyrn Degwm ac yn bloeddio eu hanghymeradwyaeth. Yn ôl rhai o'r tystion cododd John Rees ffon gerdded braff uwch ben y beili a daeth ei ddwrn o fewn modfeddi i'w drwyn. Cydiodd rhai o ferched yr ardal ynddo a cheisio ei sarhau trwy ei gusanu a dwyn ei got. Yn ôl Lewis, ac er cryn ddifyrwch i'r rhai oedd yn bresennol yn y llys 'He used the words 'jiawl' often and 'damo chwi'. Ychydig ddiwrnodau'n ddiweddarach cyfarfu'r ddau elyn unwaith yn rhagor ar blatfform Orsaf Dren Boncath. Roedd John Rees yn ol yr erlynydd yn sefyll wrth ffenest y goets eisteddai Lewis ynddi yn ei fygwth. Roedd wedi torchi llewys a heriodd y beili i dalu ymwelaid arall a Phant yr Haidd 'er mwyn pennu'r busnes!'. Ond gwadodd cefnogwyr John Rees yn y llys fod ei ymddygiad wedi bod yn ymosodol. Roedd y gohebydd o'r un farn ac yn ol ei ddehongliad ef o'r sefyllfa roedd yr awyrgylch yn hynod fygythiol ond nid oedd wedi gweld Rees yn ymosod ar y beili er fe nododd bod un o'r merched lleol wedi bod yn hynod ddigywilydd pan ofynodd i Lewis a byddai'n dymuno dod gydag hi 'i'r gwely caru!'. Unwaith eto bu bonllefau o chwerthin yn y llys

CARDIFF TIM

# THE TITHE AGITATION IN PEMBROKESHIRE.

## Alleged Assaults on the Tithe Bailiff.

At the Newchapel (Boncath) petty sessional court, on Tuesday, the charges arising out of the assaults committed on the bailiff, Robert Lewis, at Crymmych Arms, again came up for hearing. The court was densely crowded. The defendants, who had been released on bail, are Thomas Morris, Pontyglazier, Meline, smith; David Vaughan, Dyffryn Mawr, Whitechurch, farmer; David and Thomas Sambrooke, Vronlas, Whitechurch, farmer's sons; John and Daniel Bowen, Troedyrhiw, Crymych, farmers; David Thomas, Bwlchyclawdd, Penrith, farmer; and Simon Lewis, Crymmych, farmer's son. They all surrendered to their recognisances. A young woman, named Mary Anne Bowen, residing at Penquarre Farm, Penrith, appeared in answer to a summons served upon her on Monday last, wherein she is charged with being at Crymmych Arms on the 19th of June, and participating in the assault and battery on Robert Lewis, the tithe bailiff. The young woman is a cousin of

...at Lewis's head.

John Griffiths, Blaenpantsaeson, farmer, said he happened to go to Crymmych on the day in question. He first saw Lewis in front of the public-house, whilst he was sitting on a low hedge with David Thomas and Wm. Stephens. David Thomas did not assault the bailiff, as he sat the whole time close by witness. Neither did David Vaughan.

### THE DECISION.

A large number of persons having tendered rebutting evidence, and the defendants having been called to give evidence on behalf of each other where practicable, the bench, after deliberating for over an hour, declared that they were satisfied that the charge of assault had been proved against John Bowen, who was fined £3 and costs; against Thomas Morris, who was fined the same amount; and against David Vaughan, who was fined £2 and costs. The cases against David Thomas and Daniel Bowen were dismissed, costs allowed; and those against Thomas and Daniel Sandbrook and Simon Lewis were dismissed, each party to pay their own costs.

The case against Mary Ann Bowen for assaulting the tithe bailiff was adjourned for a month.

The court rose at 10.30 p.m.

**Adroddiad o'r 'Cardiff Times'.**

## vs - Tuesday 07 July 1891

. RIGHTS RESERVED.

# THE TITHE AGITATION IN PEMBROKESHIRE.

## A STARTLING DEVELOPMENT.

### APPREHENSION OF SEVEN PERSONS

Our Cardigan reporter writes :—At an early hour on Monday morning, a police force numbering eight men, under the charge of Superintendent Phillips, Fishguard, visited the locality of Cr ymych Arms, and there arrested the following persons on a charge of assaulting and beating Robert Lewis, bailiff, acting for the associated clergy to recover arrears of tlthes, on the 19th ult., at Crymych Arms :—Thos. Morris, Pontyglazier, Meline ; David Vaughan, Dyffryn Mawr, Whitechurch ; David Sandbrook and Thos Sandbrook, Vronlas, Whitechurch (farmer's sons) ; John Bowen, Troedyrhiw ; David Thomas, Bwlchyciawdd, Penrith ; Simon Lewis, Crymych (farmer's son). Five of them were lodged for some hours in Cilgerran lock-up, awaiting the arrival of the two others. They whiled away the hours of confinement by heartily singing the old Welsh hymn—

Dysgwyl r wy ar hyd yr hir nos
Dysgwyl am y boren ddydd,
Dysgwzl clywed pyrth yn agor
A chadwynau'n myn'd yn rhydd, &c.

At 12 o'clock, noon, the prisoners were brought into Cardigan by train, and marched in single file, with a policeman by the side of each of the men, from the station to the office of Mr Picton Evans, clerk to the magistrates of the district. They were brought before Mr T. H. Brenchley, who remanded them under bail to New Chapel Petty Sessions on Tuesday (to-day) at 12 noon. The amount of bail was fixed at £40 in each case.

assailants. What appears singular in these proceedings is that, after the lapse of a fortnight, warrants should have been issued for the apprehension of persons suspected of having participated in the assault—all being respectable persons, and never before charged with any offence. For the purpose of effecting what was deemed a clever "capture" by the representatives of the militant Church, very elaborate preparations had been made. As many as eight constables, under the charge of Superintendent Phillips, were drawn from different parts of Pembrokeshire and driven to Crymmych Arms, where they arrived about six o'clock in the morning of Monday, some of these "wanted" having to be hauled out of bed. Not a show of resistance was made on the part of the accused. They seemed satisfied, in fact, that no charge could be laid against any of them—five, it is alleged, having only arrived on the scene after the alleged assault had been committed, and the two others being spectators pure and simple. Five of the defendants were lodged in the lock-up at Cilgerran awaiting the arrival of the three others who were "wanted," but only two were to be found, the other happening to be from home. As no magistrates could be had at Cilgerran, the defendants had to be brought to Cardigan by train, and marched through the streets from the station in single file with a policeman by the side of each one. The strange procession was followed by a number of farmers and others from the locality of Crymmych Arms, together with many of the townspeople.

The accused were taken to the office of Mr Picton Evans, the magistrates' clerk, where a county magistrate (Mr Brenchley), the complainant Robert Lewis (bailiff), his witness (the reporter of the *Western Mail*), and the solicitor for the prosecution (Mr Jones, of Haverfordwest)

***Y Cymro Rhagfyr 13 1894.***

**<u>Pegi Lewis a'r Fuwch</u>**, Daeth yr hen Biwritan uniawngred uchod i gryn enwogrwydd yn ystod Rhyfelawd y Degwm; gwnaeth Watcyn Wyn gerdd boblogaidd iddi; a chenir llawer ar y gerdd, yn y Deheudir yn enwedig. Ond y mae Pegii ei hun wedi ei rhoi yng ngharchar a'r syndod yw fod unrhyw ddeddf yn mysg cyfreithiau Prydain ddigon creulawn i'w carcharu. Dyma ddywedir yn y Diwygiwr am y mis hwn mewn nodyn golygyddol gan un o'r ddau olygydd, hwyrach Watcyn Wyn ei hun 'Y mae Pegi, druan, wedi ei bwrw i garchar, yn hen ddynes driugain a phedair ar ddeg oed. Dygwyd tystioiaeth yn ei herbyn gan ryw heddgeidwad ei bod wedi camdrin oen oedd ganddi drwy beidio rhoi digon o ryddid iddo, ac wedi camdrin buwch oedd ganddi drwy beidio rhoi digon o fwyd iddi. Cafodd y treial ei gario yn mlaen yn yr iaith Saesneg, ac nid oedd Pegi yn deall yr iaith hono, ac nid oedd ganddi neb yn y llys i'w hamddiffyn. Condemniwyd hi gan dri o ynadon i dri mis o garchar ac yno y mae hi yn awr, a barna ei chymydogion y bydd farw yno cyn y bydd y tri mis ar ben. Y mae yr holl gymydogaeth yn ferw drwyddi am lymder y ddedfryd, ac y mae rhai yn symud i geisio cael gan yr Ysgrifenydd Cartrefol ystyried tegwch neu annhegwch y peth. I ni, o'r pellder hyn, y mae y ddedfryd yn edrych y fwyaf afresymol, ac annheg, ac eithafol y darllenasom am dani braidd erioed. Os oedd hi wedi camdrin ei hanifeiliaid ei hunan yn y modd y dywedir, rhaid fod ei chyneddfau naturiol yn gwanychu. Y mae hi wedi byw oes hir yn y lle, wedi arfer gweithio'n galed, a chadw buwch neu ddwy i'w helpu i gael tamaid, ond yn awr yn ei henaint rhaid fod yna rywbeth allan o le ar synwyrau Pegi, ac yn ganlynol ar weinyddiad cyfraith y wlad.

# Dial – y cyhuddiad, yr achos llys a'i charchariad

The Cardiff Times:
Tachwedd 24, 1894

TO THE EDITOR.

SIR,—Will you kindly allow me a small space in your valuable paper to call the attention of the public to the extraordinary conduct of the magistrates sitting at Fishguard Petty Sessions last Thursday, in which the celebrated Peggy Lewis, of tithe fame, an old woman of over 70 years of age, was sentenced to three months' imprisonment, without the option of a fine, for ill-treating a lamb and cow (her own property), whilst a man for beating and turning his wife out of doors at 1 a.m. in the morning in her night-clothes was only fined 1s and costs? It is high time that we should make a stand against the magistrates showing their Tory proclivities on the bench. Where were the Liberal J.P.'s? They are never found on the bench when they are wanted. Can anything be done towards procuring poor Peggy's release? I, together with hundreds of others, would be willing to contribute towards her release. Hoping one of our members of Parliament will take the matter up,—I am, &c.,

CYMRU FYDD.

Fishguard, Nov. 16th, 1894.

TO THE EDITOR.

## Moylgrove.

The name of "Jones Trewyddel," as the Rev. W. Jones, of Moylgrove, is popularly called, is known throughout the Principality for his active sympathy with, and participation in, the tithe war. He it was who made the case of Peggy Lewis and her cow known at every fireside in Wales, and it was his fiery eloquence and stories of wrong and oppression that aroused the popular conscience to the iniquity of the methods of the Establishmentarians. He lives also in the same parish as poor old Peggy, and is intimately acquainted with her and with all the circumstances of the recent case. A representative of the *South Wales Daily News*, therefore, elicited the following facts from him on Monday last:—

"The facts are as follows," said Mr Jones, plunging *in medias res*. "At the end of October last a policeman paid a visit to Peggy and found the cow in a low state. After that he paid several and regular visits to Peggy."

"And do you mean to say that these visits were made periodically and covered a length of time?"

"Certainly. That does not look very much as if the old woman wittingly practised cruelty on the animals, does it? One can hardly imagine that anybody would systematically abuse animals

"It doesn't seem likely," confessed our representative.

"At last," continued Mr Jones, "he brought a veterinary surgeon with him, who discovered that the cow was suffering from want of food. I ought to say, also, that during his visits he found, as he says, a lamb with its four legs tied together."

"Well, that seems to be a very strange thing to do," said our representative. "What was her object in doing so?"


"It is inexplicable to me, if it is true," answered Mr Jones. "I can't see why Peggy should do this for no earthly object and to her own injury."

"What does Peggy herself say about the affair?"

"Oh, Peggy says that the cow was very ill, and that that was the matter with her. I am perfectly assured in my own mind that poor old Peggy was as innocent of all thought of ill as I am, and that she had no conscious intention of treating the animals cruelly."

"But why did she allow the animals to die of starvation?"

"Die of starvation? Nothing of the kind! Why, the cow and the lamb are all right this very day."



"So there is a good deal of sympathy felt for Peggy in the neighbourhood?"

"Yes, much sympathy and even more astonishment, not to say consternation, among all classes. We are at a loss to understand how any magistrates could send an old woman in her 74th year to gaol for three months without the option of a fine. Peggy Lewis has kept herself honourably all her life without receiving a penny piece from the poor rate, and that one who has led a blameless life for so many years should end her days under the shadow of a public disgrace is intolerable. If I can do anything to help to get the Home Secretary to consider her hard case I shall gladly do it."

"May I ask who the sitting magistrates were?"


"They were Mr Worthington, a Churchman and a Conservative; the Rev. Peter Phelps, a clergyman of the Established Church; and Capt. Harries, a Methodist and a Liberal. The clerk of the magistrates is Mr Picton Evans, a Tory solicitor, who acted for the parsons in the tithe wars. He acted for them at the time when Peggy's case came forward, though it was not he that appeared to prosecute Peggy."




Carchar Caerfyrddin

# South Wales Daily News - Monday 19 November 1894

Image © THE BRITISH LIBRARY BOARD. ALL RIGHTS RESERVED.



INDIGNATION MEETING AT FISHGUARD.

A public meeting was held at the Town-hall, Fishguard, on Saturday evening last, when Mr Hilfurn occupied the chair, to protest against the sentence passed by the magistrates on Peggy Lewis. The meeting was most enthusiastic throughout, every speaker expressing the belief that the unfortunate woman had been unjustly committed to three months' imprisonment. The evidence at the court was given in English, and the woman being perfectly illiterate, it was maintained at the meeting that she could not understand the language in which the evidence was given against her. The meeting was of opinion that the magistrates should have remanded the case in order to make further inquiries, and it was further unanimously agreed that the Home Secretary be petitioned to cause inquiries to be made of the poor woman's mental condition, as she could not possibly be responsible for her actions at such an advanced age.

TO THE EDITOR.

# South Wales Daily News - Tuesday 01 January 1895

Image © THE BRITISH LIBRARY BOARD. ALL RIGHTS RESERVED.

r), and it is said that if it the terms on which the authorities hold it from the ock Company are such as efit the owning company. iderations as these should in the balance when the t as a whole is concerned. t now to a scheme the ared for the improvement ock entrance. Such an l be effected at a relatively rustees making use of the That dock could be cut he river at little expense an alternative entrance, e deepening of the present ng proceeded with. We itive information on the l imagine it would not be or the Trustees to come owners of the dry dock to jectas has been suggested.

## HER PRISON LIFE.

[INTERVIEWED BY OUR REPORTER.]

As the result of a careful inquiry by the Home Secretary, Mrs Margaret Lewis, well known throughout the Principality as "Peggy Lewis," the heroine of the tithe war, was on Monday released from Carmarthen Gaol. Thither she was sent on the 15th November by three Fishguard magistrates—Mr Worthington (a chairman and a Tory), the Rev. Peter Phelps (a Conservative clergyman), and Capt. Harries (a Methodist)—for alleged cruelty to a cow and lamb. It may be remembered that the poor old woman had no one to defend her before these English-speaking justices, and that as she could not converse in their language, or grasp even the substance of what they said, it is believed that she would not have been committed to prison for three months without the option of a fine if her emphatic denial to the charges had been supported by the required explanation of a legal adviser. But no opportunity was given her to obtain an advocate, and, therefore, both political friends and foes promptly showed their disapproval of such a sentence

The cargo on board a recent gale near Holyh £150,000.

The Welsh Baptists pendents 10 periodical language.

The Calvinistic Me bers in Glamorganshi about 40,000.

Mr Lloyd George, M.P., will appear on t at Conway.

Mr T. Palestina Lew is still confined to hi Upper Bangor.

There are more Bapti in any other county number is 41,429.

Mr Ellis Nanney h again to contest the Ca Mr Lloyd George.

been supported by the required explanation of a legal adviser. But no opportunity was given her to obtain an advocate, and, therefore, both political friends and foes promptly showed their disapproval of such a sentence, and laid the unvarnished facts before Mr Asquith. The wisdom of the right hon. gentleman prompted him to terminate poor Peggy's imprisonment on the last day of the old year. Prisoners getting their release generally leave the gaol soon after eight a.m., but the governor (Mr Forbes) is a humane official, and so he exercised the power which he possessed by causing Peggy to be cared for until the morning had well advanced. It was well he did this, because it was bitterly cold on Monday, the previous night's snowstorm having frozen on the earth. When Peggy emerged from the gloomy old keep at a quarter before 10 o'clock there was not a soul to greet her, save our Carmarthen reporter. Peggy told him she knew no one at Carmarthen, and so he took her under his sheltering wing, and provided her with a snug corner near a fire, and all the other necessaries. The poor old body was deeply grateful for the small attentions, and willingly spoke of

HER PRISON LIFE.

She mentioned that the governor of the prison had recommended her to go to Cardigan by the 2.25 p.m. train, seeing that the earlier one (11 o'clock) would land her at Whitland, where she would have a long wait on a bleak platform.


Reporter: "When were you taken to the gaol?"

Mrs Lewis: "On the 15th of last month."

"Have you been comfortable there?"—"Oh, yes; it is a splendid place. I did not trouble about anything, but I heard they were troubling about me at home."







## Y Cronicl: Awst 1898

Mae bywyd y gweinidog gwledig yn swynol a difyr ar un olwg, ac eto gweithiodd Mr. Jones, Trewyddel, yn galed, ac nid rhyfedd iddo farw yn 58 oed. Desgrifia Eynon gymeriad llawn, ac (ys dywed y beiidd) " amlochrog" Mr. Jones yn y geiriau hyu. ".Mae yn ddyn rownd anghyffredin mewn ardal wledig, ac nid pregethwr y Sabboth yn unig ydyw. Mae yn gweithio allan y bregeth yn effeithiol drwy yr wythnos. Mae ambell un yn gwneud yn dda mewn pwlpud ac yn gwneud mor sal allan o hono, fel y mae yn ofid i'w gyfeillion goreu ei fod yn gadael y pwlpud hyd yn nod am haner awr : ond am Mr. Jones y mae yn golofn pob achos da allan o'r pwlpud. Rhoddwch ef i arwain Rhyfel y Degwm ac y mae mor feistrolgar a Wellington yn Waterloo." Yr ydych yn cofio am gyffro'r gwrthddegymwyr yn Sir Benfro, a Pegi Lewis a'i buwch, a anfarwolwyd yn nghán Watcyn Wyn. Mr. Jones, Trewyddel, oedd y cyntaf i alw sylw'r cyhoedd at yr achos poenus hwnw, a gwnaeth lawer i arwain y werin yn yr argyfwng.



# MARWOLAETH 'PEGGI LEWIS.'

AT OLYGYDD "Y CAMBRIAN."

Anwyl Syr,—Gadewch i mi ddiolch yn fawr i'r Parch. J. Myfenydd Morgan am alw sylw, drwy y wasg, at farwolaeth yr hen arwres "Peggi Lewis." Nid oeddwn wedi gweled un gair mewn un papyr am yr amgylchiad, hyd nes i'r *Cambrian* ddod i fy llaw boreu heddyw. Yr oedd yn chwith genyf feddwl iddi gael ei chladdu mor ddiseremoni—dim ond chwech neu saith yn yr angladd—ond erbyn ailfeddwl, angladd syml a dinôd oedd yn cydweddu â bywyd syml a gwledig "Peggi Lewis." Dim ond unwaith yn ei bywyd y gwelwyd "Peggi" yn ei gogoniant yn y byd hwn; claddwyd hi yn ddinôd, ac yn ddisylw, ac yn ddiseremoni; tebyg y caiff ei gweled yn yr adgyfodiad.

Drwg genyf nas gwelodd y Parch. J. Myfenydd Morgan yr hen greadures hono, cyn iddi fyned ac na byddo mwy. Gwelais i hi unwaith, a chefais y pleser o roi cardod fechan yn ei llaw galed. Yr oeddwn i, a Towyn, ac Alfed, yn treulio ychydig ddyddiau yn Trewyddel, gyda'r diweddar Barch. Wm. Jones (coffa da am dano; a chyda llaw, pe buasai yr Hen Drewyddel yn fyw, nid chwech neu saith fuasai yn angladd "Peggi"). Ar yr heol, yn ymyl y capel, ar ddydd Sul, cefais y fraint o weled "Peggi Lewis," a siarad a hi, ac ysgwyd llaw. Dywedais wrthi fod yn dda genyf ei gweled a siarad a hi, am fy mod wedi clywed llawer o sôn am dani, ond heb erioed gwrdd â hi.

Do, syr," ebai Peggi, "mi'ch gwelais i chwi yn Nghaerdydd!"

Yr oedd hi, druan, yn credu fod pawb yn y cyfarfod mawr hwnw yn Nghaerdydd, yr hwn oedd wedi cymeryd lle ryw ddwy flynedd cyn hyny, ac yn yr hwn y daeth hithau i'r cyhoedd y tro cyntaf, a'r tro diweddaf, ran hyny. Mor fyrhoedlog yw poblogrwydd, onid ê? Dyna y cyfarfod mwyaf welodd "Peggi" erioed, a chredai hi fod yr holl wlad yn y cyfarfod hwnw.

Dichon nad annyddorol gan ein darllenwyr, a chan ddarllenwyr y *Western Mail*, oblegid gwelaf fod y *Western Mail* yn ei Ryddfrydiaeth arferol wedi codi eich nodiadau am "Peggi." Gadawodd "Peggi" argraff annileadwy ar y *Western Mail*, gallwn feddwl—ond at y gân.

Yr oedd amgylchiadau "Peggi" a'r offeiriad, a'r fuwch a'r llo, a'r rhyddhau difeddwl, a'r carcharu diarbed, yr oedd yr amgylchiadau i gyd mor llawn o ddefnyddiau "cerdd duchan," fel nas gallaswn yn fy myw adael iddynt basio heb geisio eu rhoi ar gôf a chadw mewn cân anfarwol, os oedd modd, ac fel hyn y bu hi. Yr oeddwn i a Mr. Thomas, Landŵr, wedi cymeryd at olygiaeth y *Diwygiwr* y flwyddyn hono, 1890, os wyf yn cofio yn iawn, ac er mwyn bod *up-to-date*, ysgrifenais ugain penill i helynt "Peggi," a'r offeiriad, a'r fuwch, a chyhoeddais hwy bob llinell yn rhifyn Ionawr o'r *Diwygiwr*. Rywbryd yn y Gwanwyn dyfodol cynygiwyd gwobr o bum' punt am gân i "Peggi," pigais inau allan ddeg penill o'r ugain, ac anfonais hwy i'r gystadleuaeth boblogaidd hono, lle yr oedd triugain ac wyth yn cynyg, ac yn wir o'r fan yma, cefais y pum' punt. Dyna yn fyr hanes y gân; ac er fod Ficer Llandudoch yn dweyd fod "Peggi" yn "eithaf marw," gallaf finau ddweyd fod y gân yn eithaf byw.

"Hanes 'Peggi'
Ga'i fynegi,
Tra bo hanes Cymru'n bod!"

Os yw ficer caredig, rhyddfrydig, Llandudoch yn penderfynu codi cofadail iddi, bydd yn bleser mawr genyf ysgrifenu ei beddargraff.—Yr eiddoch yn siriol,

WATCYN WYN.

## MARWOLAETH PEGI LEWIS.

### Angladd Diaddurn Arwres Rhai Brwydrau Gwrthddegymol yn Sir Benfro.

Ebrill 11, 1900, bu farw yr wrthddegymwraig enwog Pegi Lewis, yn 80 ml. oed; a dydd Gwener y Groglith, claddwyd ei gweddillion yn Trewyddel, plwyf Nefern, Sir Benfro. Ychydig wyddid am yr hen wreigen hyd tuag wyth mlynedd yn ol pan y cododd yn erbyn awdurdod Eglwys Loegr gan nacau talu y degwm i'r offeiriad, dyledus ar ryw hen fuwch a safai rhyngddi a'r gwaethaf. Er nad oedd y ddyled i'r offeiriad ond ychydig sylltau, bu yn agos a chodi gwrthryfel yn mhlith y Penfrodorion, yn Eglwyswyr ac Ymneillduwyr. Cymerwyd hi o amgylch y Deheudir i'w dangos mewn cyfarfodydd, yn Abertawe, Caerdydd, a Chasnewydd; a chanodd Watcyn Wyn gan i goffa ei gwrhydri, neu fel y dywed y papyr Eglwysig, "Y Llan," "cafodd bum bunt am roi cot o anfarwoldeb am dani." Ymddengys nad oedd namyn dwsin yn ei hangladd, a dywedir i ni hefyd nad oedd gymaint ag un llythyren ar ei harch i ddadgan pwy ydoedd! Prawf yw hyn eto yr anghofia Cymru ei harwresau fel ei harwyr yn fuan. Dylesid gwneyd mwy o sylw o Pegi na'r hyn gafodd, neu yn hytrach na'r hyn "ni" chafodd. "Efallai," medd "Y Cymro," "mai 'cyldigath gwadd,' fel y dywedwn ni yn y Gogledd, ydoedd; ac am blat a gwagedd o'r fath, i barhau coffadwriaeth pydron ddynionach cyffredin y bwriadwyd hwy, ac nid i anfarwoli anfarwolion fel Pegi Lewis, Margied uch Ifan, Catrin Rondol, 'Brenines y Nant,' Nanwys uch Rhobert, a boneddigesau eraill nodedig am ei gwroldeb."

**Y Drych – Papur Newydd Cymry America**

**Sefydlwyd 1850**



Bu farw Pegi yn 1900 yn 76 mlwydd oed. Fe'i claddwyd yn Eglwys Sant Andrew ond yn anffodus nid oes carreg  ar ei bedd.

**Bydd sôn am Pegi Lewis**
**Tra paro Gwalia Wen,**
**Boed iddi bob anrhydedd,**
**A choron ar ei phen;**
**Cydwaeddwn gyda'n gilydd,**
**Bob un yn glaf ac iach,**
**Byw byddo Pegi Lewis**
**I gadw'r hen fuwch fach.**

**Boed Pegi'n uwch ei chlod,**
**Nag un dyn is y rhod.**
**A bydded sôn am dani**
**Tra fyddo byd yn bod.**



SAMSON : Tarian y Gweithiwr, Chwefror 20, 1890.